**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**
**1 Tachwedd 2021 arlein, trwy zoom am 8.00 o'r gloch**
***Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,***
***1 November 2021, online through Zoom at 8.00pm***

Yn absenoldeb salwch y Cadeirydd, croesawodd yr is-gadeirydd pawb i'r cyfarfod.

**Presennol/*Present***
Cyng John Evans (Gadair/*Chair*), Gwenfair Owen, Gwilym Evans, Eirian Jones, Rhian Turner, Beryl Evans, Emyr Jones, Myrddin James a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/*Apologies*** – Cyng/*Cllr* Gerwyn Ebenezer, Daniel Thomas, Paul Rooke a PCSO John Evans.

**Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*** – Neb / *No one*

**Adroddiad yr Heddlu / *Police Report***
Ni dderbyniwyd adroddiad o'r heddlu.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting***
Cytunwyd fod cofnodion mis Medi yn gywir ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner.

**Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes***
- Dim i'w adrodd ynghlyn a gwaith i'w gwblhau oddi amgylch y goeden ywen, clerc dal methu cael y cwmni i ddod allan i wneud y gwaith

**Llyn Fanod**
Soniwyd mae Edward Harris yw'r cyfreithiwr sy'n gweitho ar ran y Coleg. Ni does gan Un Llais Cymru arian i ariannu prosiectau cynghorau cymunedol. Os oes angen mynd at gyfrieithiwr ynglyn a materion fel hyn, bydd angen i'r Cyngor Cymuned ariannu'r gost ei hunain. Cytunwyd ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Emyr Jones bod y Cadeirydd yn cysylltu a'r Cyfreithiwr Edward Harris i weld pa fath o waith papur sydd eisioes wedi'u wneud ar y Llyn, ac hefyd faint mae hyn yn mynd i'w gostio i'r Cyngor Cymuned parhau efo'r trefniadau ac yn y blaen. Angen i hyn gael ei wneud ar frys gan fod yr amser yn mynd heibio yn gyflym a dim llawer wedi'u wneud.

**Gohebiaeth/*Correspondence***
- Gwahoddiad wedi'u dderbyn i fynychu cyfarfod rhwng y Cyngor Sir a chynghorau Tref a Chymuned ar 22 Tachwedd 2021 ar lein am 6.30 o'r gloch. Cytunwyd i'r Cadeirydd Cyng Daniel Thomas, Is-gadeirydd Cyng John Evans a'r Clerc Mrs Heulwen Bulman fynychu arlein. Gofynnir i'r Cynghorwyr i anfon eitemau i'w godi draw i'r Clerc mewn da bryd i'r cyfarfod.

**Cyfrifon/*Accounts***

- Zoom £14.39 (24.09.21) & £14.39 (24.10.2021) = £28.78
- Cyflog y Clerc £111.67 (Medi) & £111.67 (Hydref) = £223.34
- Poppy Appeal £25
- Brian Bulman £250 (torri porfa'r parc)
- Taliad (3) Praesept wedi'u dderbyn £1833.33

Cytunwyd i dalu'r uchod ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James

**Cyngor Sir Ceredigion *County Council***

Ymgeisydd: Simon & Gaynor Hunt,
Safle: Lluest Wen, Penuwch

Cefnogwyd y cais yn unfrydol.

**Un Llais Cymru/*One Voice Wales***
Dim i'w gofnodi.

**Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business***

- Gan fod y ffordd lawr rhiw Gaerlwyd yn rhy newydd, roedd bwriad i rhoi grit melyn ar y rhiw yn 2022.
- Arwydd newydd wedi'u archebu gan Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer rhoi nol ar rhiw Gaerlwyd.
- Soniwyd nad oedd gan y Cyngor Sir Bolisi ar gyfer enwau tai ond byddant yn cynghori preswylwyr i ddefnyddio'r enw sydd ar lefydd yn barod.
- Soniwyd bod yna arwyddion 20mya yn mynd i'w ddodi ym mhob pentref yng Ngheredigion yn 2022.
- Warden gwn wedi bod allan yn Llangeitho yn asesu cyflwr baw cwn yn y pentref.
- Dim ymateb am y dwr sy'n cronni ar ffordd Trafle.
- Cyng Rhodri Evans i wneud ymchwil ar yr arwydd oedd angen ar ben lon Pantyresgair, Penuwch.
- Dangoswyd siom yn y Cyngor Sir gan fod y sbwriel ddim wedi'u gasglu yn rheolaidd ers nifer o wythnosau ynghyd a'r diffyg opsiwn i deuluoedd ifanc sefyll yn ei cymunedau. Soniwyd hefyd bod angen monitro'r traffig unwaith yn ragor sy'n defnyddio'r ffordd o Dyncelyn drwyddo i Stags Head.
- Cyng Rhodri Evans i anfon llun o bin sbwriel addas i roi ar bwys lleoliad yr Ysgol Gynradd yn Llangeitho, gan son hefyd nad yw'r bin sydd ar bwys arosfan bws o ddefnydd y gymuned.
- Angen bin baw cwn ar y ffordd allan o Llangeitho am fferm Goyallt.
- Wrth droi lan o Glanwern am Llyn Fanod soniwyd bod yna culvert angen gwaith glanhau ynddo.
- Culvert ar bwys y clwb ym Mhenuwch wedi gwella ers cael ei lanhau.
- Dwr yn casglu ar bwys Bwlchffin, Llwynpiod yn y man cul o'r ffordd angen sylw.
- Soniwyd am y broblem parcio oddi amgylch y cylchfan yn Llangeitho ac hefyd soniwyd am y posibilrwydd o parcio ar y lawnt tu allan i Tai Gwynfil. Eiddo Y Barcud yw'r lawnt gwyrdd a gofynnir i cael cyfarfod ar y cyd efo Barcud i drafod y posibilrwydd o defnyddio'r lleoliad ar gyfer parcio.
- Soniwyd am y llythyron sydd wedi'u postio allan i'r gymuned yn son am y 'Neighbourhood hub app' – nodwyd mae scam oedd y llythyr ac i bawb ei anwybyddu.
- Angen y sweeper yn plwyf Llanbadarn Odwyn.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Lisa Bulman ar ei llwyddiant yn y byd Saethu Clai dros y misoedd diwethaf, soniwyd bod Lisa wedi cynrychioli Cymru mewn nifer o gystadleuthau yn ddiweddar a wedi llwyddo nifer o weithiau.

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date & location of next meeting***

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar nos Lun 6ed Ragfyr 2021 am 8 o'r gloch trwy Zoom, ni fydd yna gyfarfod ym mis Ionawr ond bydd angen asesu sefyllfa Covid-19 bryd hynny i weld a fyddwn yn medru cwrdd yn y Neuadd yn Llangeitho neu dal ar-lein.